
# Y BONT

**Rhifyn 83 | Hydref 2022**
ISSN 1464-4282

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

www.clybiauplantcymru.org



## Cynghorion Campus ar gyfer cyfweliadau llwyddiannus

### Recriwtio Staff Cymraeg i'ch Lleoliad

### Grym Adolygiadau

### Y Rhaglen Brentisiaeth

## Haf o Hwyl!

# RECRIWTIO & CHADW

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Yn gweithio mewn partneriaeth â: Llywodraeth Cymru Welsh Government

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Rhifyn 83 Hydref 2022

## Yn y rhifyn hwn...

Llythyr gan y Prif Swyddog Gweithredol........................................2
Ffocws ar Orllewin Cymru.........4&5
Ffocws ar Ogledd Cymru...........6 & 7
Ffocws ar De Dwyrain Cymru....8 & 9
Cynnig Gofal Plant i Gymru..........10
Cryfhau'r Glud.............................11
Prosiectau...........................12 & 13
Recriwtio Staff Cymraeg.............14
Cyfweliadau Llwyddiannus...........15
Hyfforddiant................................16
Codi Arian..................................17
Gwym Adolygiadau.....................18
Cadw Staff..................................19
Gweithgareddau.......................20

Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260

Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant Allysgol...



Ar adeg pan fo sut i ddenu, recriwtio a chadw staff yn brif bwnc trafod, mae'r rhifyn hwn wedi ei neilltuo ar gyfer eich helpu ar bob agwedd o'r broses hon. Efallai eich bod wedi gweld ein cyfraniad ar y pwnc ar raglenni newyddion yn ddiweddar. Dwi ddim yn siŵr a yw'n gysur i chi wybod nad ydych ar eich pen eich hun yn y ddilema hon, ond byddwn yn gwneud popeth a allwn i gefnogi ein haelodau i ddenu'r staff sy'n llawn cymhelliant o ran eu hunain, y rhai y mae eu hangen arnom i helpu ein sector i ffynnu. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid yn CWLWM, Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, i hyrwyddo a thynnu sylw at Waith Chwarae fel gyrfa. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar hyn gyda'n fideo.

Wrth i ni edrych yn ôl ar Haf o Hwyl, lle gwnaethom ddangos #Maechwaraeobwys a #gallunrhywunchwarae, fe ddathlwn ein digwyddiadau ein hunain lle daeth teuluoedd at ei gilydd i gael hwyl ardderchog yn Chwarae gyda'r elfennau, adeiladu dinas gardfwrdd a chwarae gyda rhannau rhydd. Roedd y ffefrynnau arferol – Celf a Chrefft, Llithr a Sglefr a Chastell Bownsio, yno bob un, a mwynhawyd y diwrnodau gan yr holl blant – mawr a bach – a hyd yn oed rai o'r rhieni!!

Yn ystod yr haf fe fûm yn Nant Gwrtheyrn yn trwytho fy hun mewn Cymraeg am wythnos, er mwyn ceisio cael mwy o hyder yn fy ngallu yn yr iaith. Byddwn yn argymell y cyrsiau Cymraeg Gwaith yn frwd iawn; gwelwch yma sut y gallwn gefnogi'ch staff gyda chwrs Camau i Weithwyr Chwarae, a gwyliwch Addewid Cymraeg clybiau a fydd yn gymorth i'ch clwb wella o ran y Gymraeg o'i fewn.

Mae'n amser edrych ymlaen, a blwyddyn ysgol newydd a chyfleoedd newydd yn ein haros. Y mae mor bwysig ag erioed o'r blaen i sicrhau bod Llywodraethiad mor gadarn ag y gall fod; byddwn yn recriwtio i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr ac yn gobeithio y byddwch yn croesawu'r cyfle hwn i roi eich enw gerbron. Rydym yn cynnal archwiliad sgiliau o aelodau ein Bwrdd, efallai mai dyma'r amser i'ch clwb ymgymryd ag AGPA (Asesiad Gofal Plant Allysgol) a fydd yn eich helpu i ddeall eich cryfderau, ac ymhle y bydd arnoch angen ein cefnogaeth i wella mewn meysydd arbennig. Cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol am fwy o fanylion.

Pob lwc ar gyfer tymor yr hydref.

Jane O'Toole
Prif Swyddog Gweithredol



# Mae ar Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eich angen CHI

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs



Allwch chi ein helpu i wneud gwahaniaeth? Gyda'n brandio newydd sy'n adlewyrchu ein gweledigaeth a'n cenhadaeth, a ddiweddarwyd, rydym yn parhau i dyfu, a bydd eich profiad a'ch gwybodaeth yn ein helpu i gyrraedd ein hamcanion a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r sector Allysgol yng Nghymru. Rydym yn recriwtio Ymddiriedolwyr i gynrychioli clybiau ar hyd a lled Cymru, ac ar gyfer y rolau o Ymddiriedolwr Marchnata a Chyfathrebu a Thrysorydd yr Elusen/Goruchwyliwr Ariannol.

Clywch pam fod ein Hymddiriedolwr, Sam, yn gwirfoddoli ar ein Bwrdd Ymddiriedolwyr: News | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Os hoffech wybod mwy am fod yn un o Ymddiriedolwyr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs cysylltwch â Jane O'Toole (Prif Swyddog Gweithredol) ar janeo@clybiauplantcymru.org

*Am wybod mwy am yr hyn sydd gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i'w gynnig?*
***Gwyliwch ein fideo, 'Amdanom Ni', yma.***

## Bod yn Weithiwr Chwarae

I gefnogi recriwtio Gweithwyr Chwarae i'r sector fe wnaethom lansio fideo newydd yr haf hwn sy'n canolbwyntio ar fanteision bod yn Weithiwr Chwarae. Clywn gan Weithwyr Chwarae eu hunain pam eu bod y gwneud y pethau a wnânt. Mae recriwtio staff yn sialens enfawr i'r sector ar hyn o bryd, a byddai'n dda iawn gennym petaech yn rhannu'r fideo hwn yn eang ac yn ei ddefnyddio yn eich ymgyrchoedd recriwtio eich hunain.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:

## Nodwch y dyddiad

Dydd Mawrth, Hydref 18fed
10:30yb – 12:30yb
Ar-lein

Edrychwn ymlaen at rannu ein llwyddiannau a'n heffeithiau, ynghyd â cipolwg ar yr hyn sydd i ddod yn y flwyddyn i ddod.



# Gorllewin Cymru



**Jane Anderton**
Tots 2 Teens
Sir Benfro

## Gweithiwr Chwarae'r Flwyddyn 2022!

Yn ddiweddar, cawsom y pleser o gwrdd â Jane Anderton o Tots 2 Teens yn Sir Benfro, i gyflwyno ei gwobr, Gweithiwr Chwarae'r Flwyddyn 2022, a bag nwyddau bach fel diolch am ei gwasanaethau i'r sector gofal plant a chwarae dros y blynyddoedd diwethaf.

Nid yw'n anodd gweld sut y daeth Jane i ennill y wobr hon, yn ogystal â'i gwaith anhygoel yn y sector gofal plant a chwarae. Mae Jane hefyd wedi bod yn ofalwr maeth ers blynyddoedd lawer ac mae'n cyflwyno cyrsiau signalong i ysgolion a lleoliadau ledled Sir Benfro. Mae hi bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o gefnogi plant a hyrwyddo cynhwysiant a hawliau plant ac mae'n eiriolwr diflino ar gyfer gwasanaethau maethu yn ei chymuned.

Mae Jane yn gweithio'n ddiflino, gan gysegru ei bywyd i wella canlyniadau i'r plant yn Sir Benfro, roedd yn anrhydedd anhygoel gallu rhoi dim ond ychydig o'r gydnabyddiaeth honno yn ôl iddi. Diolch eto Jane, diolch am bopeth rydych chi wedi'i wneud, a pharhau i'w wneud dros y plant yn eich cymuned! Roedd yn anrhydedd gwirioneddol cael y pleser o gwrdd â chi a rhoi'r wobr hon i chi.

> *"Unigolyn uchel ei gymhelliant sydd wedi gweithio'n hynod galed dros y 2 flynedd ddiwethaf i hyrwyddo a chefnogi hawliau plant i chwarae, gan ddangos empathi ac angerdd. Maen nhw'n arbenigo mewn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anableddau. Maent wedi datblygu tîm cryf ac effeithiol, ac wedi ymgymryd â llawer o hyfforddiant ychwanegol i sicrhau diogelwch staff a phlant trwy gydol y Pandemig."*

## Camau

Carfan newydd o ddysgwyr wedi ymrestru ar Gwrs Dysgu Cymraeg Camau Chwarae yng Ngorllewin Cymru.

Mae sawl Gweithiwr Chwarae o Glybiau Gofal Plant Allysgol ar draws Gorllewin Cymru yn chwarae eu rhan dros Cymraeg 2050 drwy ymrestru ar y Cwrs Dysgu Cymraeg Camau Chwarae NEWYDD.

Ers mis Mehefin rydym wedi bod wrthi'n brysur yn recriwtio ein carfan newydd o ddysgwyr Camau Chwarae, ac mae cyfanswm o 8 Gweithiwr Chwarae o 5 lleoliad ar draws Gorllewin Cymru wedi dechrau eu siwrnai ar gwrs hunan-astudio yn dysgu'r Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda chefnogaeth Swyddog Cefnogi Iaith Gymraeg Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Mae Camau Chwarae'n gyfle gwych i staff sydd heb unrhyw sgiliau iaith-Gymraeg neu i staff a hoffai gynyddu eu hyder yn yr iaith Gymraeg. Mae'r cwrs Camau Hwn yn ddi-dâl ac wedi ei deilwra ar gyfer ymarferwyr gofal plant. Mae'n cynnwys geiriau ac ymadroddion Cymraeg allweddol sy'n cael eu defnyddio o



ddydd i ddydd mewn lleoliadau Gofal Plant a Chwarae.

Hefyd, drwy gydol y cwrs mae'r staff wedi cael modd di dderbyn dewis eang o adnoddau pwrpasol, y gellir eu hargraffu, ar gyfer eu lleoliad, er mwyn sicrhau bod yr hyfforddi'n dylanwadu ar yr arferion.

Beth am i chi gael cip ar dudalen Prosiectau ein gwefan www.clybiauplantcymru.org a'n tudalen Facebook www.facebook.com/clybiau/ i wybod mwy?

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru drwy ffonio: 01269 831010,
drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd,
Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands,
Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX

# Haf o Hwyl Gorllewin Cymru
## yng Ngardd Fotaneg Cymru

Ni allem fod wedi archebu diwrnod mwy prydferth ar ddydd Sadwrn y 9fed o Orffennaf ar gyfer digwyddiad Haf o Hwyl Gorllewin Cymru yn yr Ardd fawreddog. Roedd yr haul yn gwenu, blodau yn eu blodau ac roedd ein digwyddiad wedi gwerthu allan o fewn 24 awr. Yr ail o 3 Digwyddiad Diwrnod Chwarae mawr yr haf hwn, gyda gweithgareddau chwarae wedi'u hanelu at blant rhwng 3-12 oed, nod y digwyddiadau hyn yw hybu ymwybyddiaeth o fanteision chwarae a gwaith chwarae mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol i blant, yn ogystal ag arddangos gwaith chwarae fel dewis gyrfa.

Roedd yr holl ddigwyddiadau – gan gynnwys mynediad i'r Ardd, gweithgareddau, pecyn cinio a bag nwyddau i'r holl blant – yn rhad ac am ddim, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r 'Haf o Hwyl'.

Cafwyd cymaint o hwyl gan y blant a rhieni/gofalwyr, i gyd wedi'u hwyluso gan staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a'n gwirfoddolwyr gwych. Roedd grym chwarae yn gwbl amlwg.

Cafodd ein holl weithgareddau dderbyniad mor dda, gan ddangos y gall chwarae fod yn rhad neu am ddim. Rhai o'r gweithgareddau hyn oedd:

- Chwarae gyda'r elfennau – dŵr, tân, daear, aer. Cafodd y plant amser gwych yn gwneud smôrs, rhostio bananas a chwarae yn y mwd!!
- Adeiladu dinas cardfwrdd a chwarae â rhannau rhydd i danio dychymyg - gwelsom bopeth o geir, cychod, môr-ladron, marchogion a hyd yn oed rhai o gymeriadau Star Wars.
- Celf a chrefft - O pom poms i ddalwyr haul roedd yr ardal grefftau yn fwrlwm o chwarae, llanast a lliw.
- Llithr a Sglefr - Gyda'n darpar weithiwr chwarae Ryan ar y bibell ddŵr, y slip a'r llithren oedd y lle i fod, roedd chwerthin a sgrechiadau llawenydd gan y ddau blentyn a'u rhieni i'w clywed o bob man.
- Castell Bownsio - Pwy sydd ddim yn dwlu ar gastell bownsio? Mwynhawyd hyn gan bob plentyn bach a mawr a hyd yn oed rhai o'r rhieni!!

Dyma ddywedodd un o'r rhieni am y diwrnod-

> *"Fe aethon ni i'r digwyddiad yn yr Ardd Fotaneg heddiw ac roedd yn hollol wych. Cafodd y plant yr amser gorau. Roedd y cyfan yn drefnus iawn a chymaint i'w wneud mewn lleoliad hardd. Roedd y staff yn wych ac roedd Kim ar y castell bownsio'n anhygoel gyda'r plant. Diolch yn fawr iawn am amser bendigedig, roedd y cyfan yn ardderchog, hyd yn oed y pecyn cinio. Roedd hi mor hyfryd gweld plant yn chwarae yn yr awyr agored ac yn cael hwyl. Diolch"*

Os hoffech chi gael gwybod mwy am y manteision a'r cyfleoedd chwarae a gynigir gan Glybiau Gofal Plant Allysgol neu os ydych â diddordeb mewn Gwaith Chwarae fel gyrfa, ewch i'n gwefan ar www.clybiauplantcymru.org.

Diolch yn fawr iawn i Marion, Jasmine (14 oed), Ryan (6 oed), Harry (11) ac Aubrey (9), Reuben (9) a Romy (5) am y gefnogaeth anhygoel a roddwyd ganddynt i Glybiau Plant Cymru Kids' Tîm y clybiau ar gyfer y digwyddiad hwn. Ein cefnogi i ddarparu cyfleoedd chwarae a hyrwyddo gwerth chwarae i blant a theuluoedd ar draws Sir Gaerfyrddin.

> *"Do'n i ddim yn disgwyl ei fwynhau gymaint ag y gwnes i!"*
>
> Jasmine

> *"Ces i ddiwrnod gwych, pryd fyddwn ni'n gwneud digwyddiad arall yn yr Ardd Fotaneg?"*
>
> Ryan

Yn yr adborth gan deuluoedd yn y digwyddiad cafwyd cais yn gofyn a allai gymryd ein gwirfoddolwyr gartref! Na chewch wir!! Rydym yn ddiolchgar y tu hwnt i'r gefnogaeth a gawsom ganddynt yn y digwyddiad yma a gobeithio y cawn y pleser o weithio gyda nhw i gyd eto yn y dyfodol.



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Diolch arbennig i'r cwmnïau a gefnogodd ein digwyddiad:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru am helpu ein digwyddiad i redeg gyn esmwyth

Dainton Storage Abertawe am ddarparu bocsys mawr i'n dinas gardfwrdd.

Dunelm Caerfyrddin am ein tiwbiau cardfwrdd.

Canghennau Caerfyrddin a Crosshands o Wynnstay am gardfwrdd i'n dinas gardfwrdd.

Cawdor Castles am ddarparu'r castell bownsio.



# Gogledd Cymru



## Hyfforddiant am ddim i'n haelodau yng Nghonwy

Mae cynllun hyfforddi blynyddol Sir Conwy yn barod i gymryd archebion; mae ein gweithdai Gweithwyr Chwarae wedi eu teilwra i gyd-fynd â gofynion ac anghenion Clybiau Gofal Plant Allysgol yng Nghonwy i'ch staff eu mwynhau. Mae gennym gyrsiau Hawliau a Chyfranogaeth Plant a chyrsiau Datblygu eich Gwaith Chwarae eich Hun ac Arferion Tîm.

Mae'r cyrsiau hyn yn dechrau o fis Medi 2022. Os hoffech chi neu'ch staff archebu lle ar unrhyw un o'n cyrsiau, yna ewch draw i'n gwefan www.clybiauplantcymru.org ac archebwch le yn awr.

Bydd pob un o'n cyrsiau'n cael eu cynnal yn ein Hystafell Hyfforddi ym Mae Colwyn, 19 Princes Drive, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8HT a bydd yn cynnwys paneidiau a bisgedi.

### Hawliau a Chyfranogaeth Plant

Dydd Mawrth, Tachwedd 8fed a Dydd Mawrth, Tachwedd 15fed 2022
18.30 – 20.30

### Cyfranogaeth a Datblygu eich arferion Gwaith Chwarae ac Arferion Tîm eich Hunan

Dydd Mercher Hydref 4ydd a Dydd Mawrth Hydref 11eg 2022,
18.30 – 20.30

Os oes arnoch angen unrhyw wybodaeth bellach ar unrhyw un o'r cyrsiau sydd gennym ar gael, cysylltwch â Rachel Tustin, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Conwy 01492 536318 neu ar info-nw@clybiauplantcymru.org



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT

## Gweithio ar y cyd i gefnogi ehangu yng Ngogledd Cymru

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin, wedi bod yn gweithio gyda sawl lleoliad cyfrwng-Cymraeg yng Ngogledd Cymru.

Mae nifer o Gylchoedd a Chlybiau Gofal Plant Allysgol wedi cael eu cefnogi i ymestyn eu darpariaeth i allu cynnig gofal dydd llawn i blant 2 - 12 mlwydd oed, gan gefnogi anghenion eu cymuned leol. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae pwyllgorau rheoli gwirfoddol wedi eu cefnogi i adolygu eu strwythur cyfreithiol, ennill statws fel Sefydliadau Corfforaethol Elusennol ac ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Os hoffech gefnogi i ehangu eich darpariaeth, adolygu eich llywodraethiad neu gofrestru gydag AGC, gofynnwn i chi gofrestru â'ch swyddfa ranbarthol.

info@clybiauplantcymru.org
info-ww@clybiauplantcymru.org
info-nw@clybiauplantcymru.org

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Y Felinheli / Clwb Gofal Y Felinheli sydd wedi ailedrych ar anghenion eu cymuned ac wedi, drwy gefnogaeth Mudiad Meithrin a Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ennill y statws o Sefydliad Corfforedig Elusennol, ynghyd â bod yn gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, i ymestyn eu darpariaeth.

Maen nhw bellach yn cynnig darpariaeth ofal diwrnod llawn, yn cynnwys Clwb Ôl-ysgol cyfrwng-Cymraeg i blant 2 - 12 mlwydd oed.

Dymunwn bob llwyddiant i chi!

## Clybiau Newydd

Mae Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio ar y c ŷd â nifer o ysgolion ar hyd a lled y wlad i gefnogi datblygiad Clybiau Gofal Plant Allysgol newydd. Hoffai Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs estyn croeso cynnes i Ysgol Talhaiarn, Llanfair Talhaiarn, Conwy, Ysgol St.Mary's, Y Fflint, Sir y Fflint ac Ysgol Llanddoged, Llanddoged, Conwy, a byddant, bob un, yn cynnig lleoedd newydd o fis Medi ymlaen.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i ddatblygu eich clybiau ymhellach.

## Gweithredu i gadw staff

Gall fod yn heriol iawn i recriwtio a chadw staff, ond mae gan Little Lams, Bae Cinmel, Conwy, ambell i ffordd ardderchog o ddangos i staff eu gwerthfawrogiad ohonynt, a chefnogi cadw staff. Mae'r perchennog, Sam Maitland-Price, yn gwneud yn sicr bod ei Chlwb Allysgol yn teimlo fel teulu. Rhoddir i'r tîm o staff ambell i drît danteithiol megis cacenni a bisgedi o'r siop leol, a rhoddir diwrnodau allan gwerthfawrogol i'r staff pan allant ymlacio'n iawn a mwynhau gweithgareddau llawn hwyl.

Gall gwerthfawrogi cyflogeion fel unigolion feithrin eu synnwyr o berthyn i'r gweithle, am eich bod yn cydnabod eu bod yn rhan annatod o'ch tîm a'r sefydliad. Gall cydnabyddiaeth rhwng cymheiriaid chwarae rôl bwysig yn meithrin y synnwyr hwnnw o berthyn yn y gwaith.

Dyma ambell syniad i chi eu defnyddio yn eich Clwb Allysgol i wneud yn siŵr bod eich staff hefyd yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi.

- Gwyliwch am y pethau da
- Ceisiwch gyfraniad y cyflogai
- Byddwch yn benodol
- Anogwch ymdrech
- Gwobrwywch ganlyniadau
- Dathlwch yrfaoedd
- Helpwch gyflogeion i gael eu gweld, ac i dyfu.
- Dangoswch eich bod yn eu gwerthfawrogi am bwy ydyn nhw.

Gall y camau syml yma helpu i wneud eich tîm deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy, ac felly arwain at dîm mwy hirhoedlog.

## Datblygu'r Staff

Mae Gweithwyr Chwarae'n mynychu cyrsiau hyfforddi'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno gwasanaeth o ansawdd a chefnogi datblygu proffesiynol parhaus yng Ngogledd Cymru. Mae Gweithwyr Chwarae hefyd yn datblygu eu sgiliau ac yn cymryd rôl fwy gweithiol yn rhediad eu lleoliadau.

Mae cefnogi Gweithwyr Chwarae, a rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau cynllunio a rheoli, yn galluogi lleoliadau i hyrwyddo o'r tu mewn. Yn rhy aml o lawer, pan fydd Uwch Weithiwr Chwarae'n gadael lleoliad i ymgymryd â chyfle newydd am swydd, neu i ymddeol, bydd y pwyllgor rheoli mewn ras i gyflogi Uwch Weithiwr Chwarae newydd. Yn anffodus, nid yw'r broses recriwtio'n un gyflym. Mae galluogi aelodau o'r staff i ennill eu cymhwyster Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae a gweithio ochr yn ochr â'r Uwch Weithiwr Chwarae yn rhoi mwy o wybodaeth iddynt yn cefnogi gweithio fel tîm ac yn rhoi cyfleoedd i symud ymlaen mewn gyrfa a chynllunio olyniaeth.

Pan fydd pawb sy'n gweithio mewn lleoliad yn gwybod am y gwaith sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni, ac yn gallu cefnogi a chyfrannu syniadau newydd, mae pawb yn dechrau cael synnwyr o berthyn, ac mae hynny'n gefnogaeth i gadw staff.

Mae Clybiau Gofal Plant Allysgol Gogledd Cymru wedi defnyddio hyn i'w budd eu hunain ac wedi gallu dyrchafu Gweithwyr Chwarae i fod yn Uwch Weithwyr Chwarae, gan leihau costau recriwtio a'r heriau ymhlyg, a rhoi parhad i'r gwasanaeth.



# De Dwyrain Cymru

## Haf o Hwyl De Dwyrain Cymru



Eleni fe wnaethom lwyddo i gael grant Haf o hwyl gan Lywodraeth Cymru. Roeddem am ddarparu 3 digwyddiad mewn gwahanol rannau o Gymru i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a'r defnydd o Ofal Plant Allysgol yn ogystal â hyrwyddo Gwaith Chwarae fel dewis o yrfa. Yn Ne Dwyrain Cymru fe wnaethom gynnal ein digwyddiad ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 2ail. Bu grŵp y 29ain o Sgowtiaid Caerdydd (gerddi Pontcanna) yn ddigon caredig i ddarparu eu man cyfarfod ar ein cyfer; roedd lle hyfryd y tu allan hefyd, digon o le y tu mewn a rhandy defnyddiol iawn a fu'n gwtsh i'n dinas gardfwrdd.

Roedd hwn yn ddigwyddiad teuluol yn cynnig digonedd o gyfleoedd chwarae, o gastell bownsio a phyllau tân lle gwnaethom smôrs a chychod banana, i chwarae llanast yn cynnwys glŵp, compost a sbageti; adeiladu deniau, llond gwlad o ddefnyddiau crefft a rhannau rhydd, a llithr a sglefr. Hefyd cawsom ymweliad yn y bore gan weithwyr yng ngorsaf dân Trelái, a ddaeth â'u hinjan dân gyda nhw; roedd y plant [a'n Prif Swyddog Gweithredol!] wrth eu boddau wedi'u gwisgo fel swyddogion tân.

Roedd y lleoedd wedi'u harchebu'n llawn o fewn oriau o fynd yn fyw, ac er gwaetha'r glaw trwm a gawsom yn y bore fe gawsom nifer o deuluoedd yn cyrraedd - yn eu dillad glaw! Roedd yn llwyddiant mawr. Fel y rhagwelwyd, roedd y pwll tân yn atyniad mawr, a chafodd y plant (a'r rhieni!) fwynhad mawr o rostio malws melys a gwneud y cychod banana. Roedd y ddinas gardfwrdd yn boblogaidd iawn, ac roedd y deniau a wnaeth y plant o'r cardfwrdd yn anhygoel! Ni adawodd yr un plentyn yn lân ac roedden nhw oll yn wlyb diferol - nid o'r glaw, ond o'r hwyl ddi-ben-draw a gawsant oll yn chwarae ar y llithr a sglefr!

Roedd modd i ni ddarparu pecynnau cinio iach i'r plant, diolch i gwmni arlwyo Moo Moos, Caerdydd, a photeli dŵr a ddaeth gan McDonalds, Trecelyn. Cawsom ganmoliaeth uchel a sylwadau hyfryd gan y rheini a'r plant, ac un plentyn yn dweud, "dyma'r diwrnod gore dwi 'rioed wedi'i gael"!

Ynghyd â'r bagiau nwyddau-bach a aeth adref gyda phob teulu, fe wnaethom rannu llyfryn yn llawn codau QR ac adnoddau/negeseuon. Roedd hyn yn cynnwys dolen at ein fideo ar "Fanteision gofal Plant Allysgol" (un newydd ar gyfer 2022), dolenni at wybodaeth ar fanteision defnyddio gofal plant wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, blog '10 Ffordd o roi cychwyn ar eich gyrfa Gwaith Chwarae', adnoddau gweithgaredd, dolen at Arolwg Rhieni 2022 ar ddewisiadau gofal plant a mwy!

Ar y cyfan bu'n llwyddiant ysgubol a phawb wedi cael hwyl. Mae'r lluniau'n dweud y cyfan!







**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm De Dwyrain Cymru drwy ffonio: 029 2074 1000, drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW

## Strwythur Rheoli Cryfach

Yn Ionawr 2020 fe wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs sicrhau tair blynedd o arianu drwy'r Lotri Genedlaethol i gefnogi a chryfhau'r Sector Gofal Plant Allysgol. Rhan o amcanion ein prosiect oedd hyrwyddo pwysigrwydd ac angenrheidrwydd llywodraethiad cryf, yn ogystal â rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'r clybiau sicrhau hyn. Yna daeth pandemig, a newidiodd y blaenoriaethau. Daeth pethau'n fwy ynglŷn â chefnogi lleoliadau i oroesi, cyn y gallent ffynnu. Trwy'r adeg fe wnaethom barhau i hyrwyddo'r angen i gryfhau llywodraethiad er mwyn bod yn gynaliadwy yn y tymor hir, gan roi ffocws arbennig ar glybiau a oedd yn cael eu rhedeg gan bwyllgor yn dod yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol (SCE).

Yn ein rhifyn Gaeaf o'r Bont fe wnaethom adrodd bod dau glwb yn Ne Dwyrain Cymru wedi llwyddo i wneud hyn yn 2021, sef Raglan Rascals yn Sir Fynwy a'r Hollies, RhCT. Wrth ddod o'r pandemig mae cynnydd amlwg wedi bod ymhlith Pwyllgorau a Reolir yn Wirfoddol yn awyddus i sicrhau bod ganddynt strwythur cadarn i ddiogelu eu hatebolrwydd, a mwy yn awr am ddod yn SCE. Mae ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant yn gweithio gyda'r lleoliadau hyn, a gobeithir cyrraedd y nod erbyn mis Medi.

Mae manteision dod yn SCE yn mynd y tu hwnt i ddiogelu rhag atebolrwydd personol. Mae'n rhoi mwy o gyfle i gael arian a all yn ei dro roi cyfle i chi ddod yn fwy cynaliadwy, gan edrych ar ffyrdd y gallech gynnig mwy i'ch staff. Y mae hefyd yn arddangosiad o strwythur rheoli proffesiynol, sy'n rhoi mwy o ymdeimlad o ddiogelwch o ran recriwtio a chadw staff.

Os hoffech gefnogaeth gyda'ch llywodraethiad, yna cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant os gwelwch yn dda. Ebost: info-sew@clybiauplantcymru.org

## Cwrdd â'r Clwb De Dwyrain Cymru

Mae Barnaby's yn Glwb Allysgol ac Amlapiol, wedi ei hen sefydlu, ac sy'n cael ei redeg gan bwyllgor yr ysgol yng Nghasnewydd. Mae'r clwb wedi ei leoli yn Ysgol Gynradd Malpas Court ac yn gweithredu ar gyfer plant 3-12 mlwydd oed o'r ysgol honno. Cesglir plant yn ogystal o Ysgol Gynradd Malpas Park a'r gymuned ehangach yn achos y Clwb Gwyliau. Mae'r clwb yn darparu ar gyfer 24 o blant yn y Clwb Ôl-ysgol a 16 sy'n derbyn gofal plant Amlapiol. Mae'r clwb yn cynnig amgylchedd plentyn-ganolog sy'n diwallu anghenion cymdeithasol, corfforol, meddyliol, creadigol ac emosiynol pob plentyn unigol.

Ers mis Mawrth 2022, yn dilyn anfon ffurflen mynegi diddordeb i bob Clwb yng Nghasnewydd, mae darparwr newydd wedi bod yn cydweithio'n agos â Phennaeth Ysgol Gynradd Malpas Court i alluogi Barnaby's i bontio i strwythur darparu a rheoli newydd a gweithio tuag at fod yn gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o dan adain y darparwr newydd, Stay & Play. Mae'r perchennog newydd, Nicola Speight, yn gweithredu fel darparwr preifat ac mae ganddi glybiau eraill ar draws y Sir. Roedd angen i'r pontio fod yn llyfn er mwyn sicrhau y gall y Cynnig Gofal Plant gael ei ddarparu'n gyson i'r teuluoedd sy'n cyrchu'r ddarpariaeth hon.

**Beth fu'r her fwyaf yn ystod y pontio o Barnaby's i Stay and Play?** Mae'r pontio rhwng y clybiau wedi bod yn esmwyth iawn o ganlyniad i'r berthynas weithio gadarnhaol rhwng y darparwr presennol a'r darparwr newydd. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi gweithio gyda'r darparwr newydd i sicrhau bod y dyddiad cofrestru wedi bod yn hyblyg, a chymerir y clwb drosodd fel Stay & Play o Fedi 2022 ymlaen. Mae heriau ynghylch recriwtio a chadw staff yn dilyn y pandemig wedi esgor ar gymhlethdodau, ond goresgynnwyd y rhain ac mae'r staff newydd yn cael effaith gadarnhaol ar y clwb.

**Pa gefnogaeth ydych chi wedi ei chael gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** Mae'r ddau glwb wedi cael eu cefnogi'n unigol gan y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, sy'n cael ei ariannu gan Awdurdod Lleol Casnewydd. Mae cefnogaeth gydag arweiniad ac adnoddau parthed cofrestru wedi eu darparu. Mae cyfarfodydd unigol gyda phob darparwr unigol i sicrhau trefniadau ariannol a chefnogaeth parthed y gofynion cyfreithiol wedi eu cynnal. Bu hefyd gyfarfodydd ar y cyd, gan alluogi'r pontio fod yn dryloyw a llyfn i bob darparwr. Mae hon wedi bod yn siwrnai i bob un o'r partïon ac wedi arddangos gwaith partneriaethol cadarnhaol.

*"Hoffem ddiolch i Clare Dare am ei holl gefnogaeth gyda'r pontio o'r dechrau i'r diwedd. Mae Clare bob tro wedi fy nghefnogi, nid yn unig gyda'r pontio o Barnaby's i Stay & Play, ond gyda'r clybiau eraill sydd gen i. Y mae'n ased ardderchog i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs"*

N Speight, Stay & Play

### Diweddariad ar Oak Hill ASD Casnewydd

Mae Oak Hill ASD Casnewydd gryn dipyn o'r ffordd drwy'r Clwb Haf eleni. Â'r gweithgareddau "Key Create" a'r sesiynau Tenis, mae'r plant yn cael amser gwych yn y clwb. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Hawkins wedi ei chyflogi fel Gweithiwr Datblygu ac yn gwneud gwaith ardderchog gyda'r rhieni, ac o redeg y clwb. Mae ganddynt broses recriwtio barhaus i ymgeiswyr wneud cais am swyddi, gan fod arnynt angen tîm hyblyg o weithwyr cefnogi yn ogystal â rheolwyr sy'n gymwysedig mewn Gwaith Chwarae i'w redeg. Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio yn y ddarpariaeth Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth hon, ac â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc, cysylltwch ag oakhillasdchildcare@gmail.com i gael ffurflen gais. Mae potensial i'r clwb dyfu ac mae'r pwyllgor yn gweithio'n ddiflino ar geisiadau ariannu i sicrhau'r cyllid angenrheidiol i sicrhau y cynhelir y ddarpariaeth mor aml â phosibl yn ystod cymaint ag sy'n bosibl o'r gwyliau. Os oes gennych sgiliau cyllidol, sgiliau parthed pwyllgorau elusennol ac o anghenion cymhleth, yna maen nhw'n awyddus i ychwanegu mwy o wirfoddolwyr brwdfrydig i'w ymuno ar y siwrnai hon. Cysylltwch ag Oak Hill ASD Childcare i wybod mwy.

## Helô a Hwyl Fawr!

Rydym wedi bod yn teimlo'n hynod drist yr haf hwn i fod yn ffarwelio â Becky Hall, un o'n Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant a Swyddog Hyfforddi. Mae Becky wedi bod yn ased penigamp i'n tîm a gwelir ei heisiau, nid yn unig gennym ni yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ond hefyd gan bob un o'r clybiau y mae wedi gweithio mor galed i'w cefnogi dros y 2 flynedd a hanner ddiwethaf. Bydd Becky'n symud ymlaen i rôl newydd, llawn cyffro, yn cefnogi datblygiad chwarae, ac felly bydd yn gwneud yr hyn y mae wrth eu bodd yn ei wneud - cefnogi hawl plant i chwarae!

Ac un bennod yn dod i ben, gwelir dechrau un arall! Mae'n bleser gennym groesawu Paula Carter-Clare i'n tîm. Bydd Paula'n cysylltu â chlybiau yn yr ardal yn fuan i gyflwyno'i hun yn iawn a bydd yn dod ynghyd â'i phrofiad o sefydlu ei Chlwb Gofal Plant Allysgol ei hun. Mae Paula'n llawn angerdd ynghylch cefnogi Rheolwyr, pwyllgorau a Gweithwyr Chwarae, ac yn hyrwyddwr cofrestru a chwarae. Croeso i'r tîm Paula!

# Cynnig Gofal Plant i Gymru: Y Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol

Mae gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn dod yr hydref yma! Bydd hwn y galluogi pob rhiant a darparwr gofal plant i gael mynediad at y Cynnig Gofal Plant I Gymru. Bydd hyn nid yn unig yn cyflwyno cysondeb i brofiad rhieni ar hyd a lled Cymru, Gallai hefyd wella'n sylweddol brofiad darparwyr gofal plant sy'n cyflenwi gofal a ariennir gan y Cynnig Gofal Plant. Un o fanteision allweddol y gwasanaeth newydd i ddarparwyr gofal plant yw y byddant yn gallu symud tuag at weithio gyda dim ond un system ac un drefn dalu, ym mha ardal awdurdod-lleol bynnag y bydd y plant yn eu gofal yn byw.

Bydd angen i ddarparwyr sy'n dymuno cyflenwi'r Cynnig Gofal Plant i Gymru gofrestru ar y gwasanaeth digidol cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru'n agor y broses gofrestru i ddarparwyr o fis Medi ymlaen ac yn rhoi gwybod i gyflenwyr yr union ddyddiadau pan allant ddechrau cofrestru. Daw'r negeseuon hyn drwy dîm awdurdod-lleol y darparwr a phartneriaid Cwlwm, yn ogystal ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) felly cadwch olwg ar eich e-byst

Yn achos unrhyw ddarparwyr nad ydynt mor hyderus yn defnyddio gwasanaethau digidol, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu hyfforddiant sylfaenol, rhad-ac-am-ddim mewn sgiliau digidol i'w helpu. Cynigir sesiynau hyfforddi rhithiol yn gynnar ym mis Medi, ond mae sesiynau hyfforddi sydd wedi eu recordio ymlaen llaw eisoes ar gael ar [Sgiliau Digidol Hanfodol i ddarparwyr gofal plant (llyw.cymru)](https://llyw.cymru)

Bydd hyfforddiant pwrpasol ar ddefnyddio'r gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd hefyd ar gael o fis Medi ymlaen. Gwyliwch am yr e-byst gan eich tîm awdurdod-lleol ac AGC. Ceir hyd i wybodaeth bellach ar y gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd yma [Cynnig Gofal Plant i Gymru: Y Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol | LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru)

## Dyddiadau Allweddol

**Medi - Hydref 2022:**
Gwahoddir darparwyr gofal plant ar hyd a lled Cymru i gofrestru ar gyfer gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant i Gymru fesul cam.

**Tachwedd 2022:**
Bydd rhieni sy'n gwneud cais am ofal plant wedi ei ariannu o Ionawr 2023 ymlaen yn dechrau ymgeisio drwy'r gwasanaeth digidol cenedlaethol.

**Ionawr 2023:**
Bydd rhieni'n dechrau derbyn eu horiau gofal pant a fydd wedi eu hariannu, a bydd darparwyr yn dechrau hawlio taliadau drwy'r gwasanaeth digidol cenedlaethol.

# Iechyd a Llesiant

Wrth feddwl am recriwtio a chadw staff, mae'n bwysig ystyried sut yr ydych yn cefnogi Iechyd a Lles eich staff. Fel cyflogwr a pherson cyfrifol/unigolyn cyfrifol mae gennych ddyletswydd gofal i sicrhau bod yr holl staff yn gallu gofalu am blant yn feddyliol ac yn gorfforol13.5(DC) (Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant yng Nghymru(NMS).

Yn eich hysbyseb ar gyfer y swydd meddyliwch am sut rydych chi'n gwobrwyo staff am eu gwaith caled a rhowch wybod i ddarpar ymgeiswyr. A ydych yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol neu feithrin-tîm? Gall hyn annog staff newydd i wneud cais. A ydych yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd sy'n rhoi cyfleoedd i staff siarad yn agored ac yn gyfrinachol? Bydd gwybod bod unigolion yn cael eu cefnogi yn eu rôl yn helpu i gadw staff yn gyflogedig yn eich clwb. Os yw staff yn teimlo y gallant siarad yn agored a'u bod yn cael eu cefnogi gyda'u hiechyd meddwl a'u lles, mae'n bosibl y bydd llai o absenoldebau o'r gwaith oherwydd salwch, a gall hyn hefyd atgyfnerthu morâl staff, yn unigolion ac yn aelodau tîm.

Fel cyflogwyr eich dyletswydd gofal yw gwneud popeth y gallwch yn rhesymol i gefnogi iechyd, diogelwch a lles staff. Dylech sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, amddiffyn staff rhag gwahaniaethu a sicrhau bod gennych asesiadau risg perthnasol yn eu lle.

Mae gan rai sefydliadau raglenni cymorth i weithwyr sy'n hygyrch i'w staff. Gall hyn fod yn gostus, ond byddai cael systemau mewnol cadarn yn eu lle i sicrhau bod staff yn gallu gweithio i'w llawn botensial yn cael effaith gadarnhaol ar eich tîm, a bydd hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar y plant.

Trwy oruchwyliaeth un-i-un, mae'n bwysig gofyn am les eich staff, sut maen nhw'n teimlo. A oes unrhyw beth y dylech ei wybod am eu hiechyd a allai effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl? Mae darparu'r cyfleoedd hyn yn ffordd gadarnhaol o gefnogi unigolion er mwyn iddynt wybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Efallai y bydd gennych chi hefyd berson addas a all fod yn Hyrwyddwr Iechyd Meddwl yn eich clwb neu sefydliad. Gallent gael eu hyfforddi a datblygu sgiliau i gefnogi'r tîm, a hefyd ddarparu ar gyfer y staff berson i wrando arnynt a'u cyfeirio at gymorth pellach os oes angen. Mae'n bosibl na fydd rhai pobl yn sylweddoli bod ganddynt broblemau iechyd meddwl, a gall hyn effeithio ar allu person i wneud penderfyniadau ac i feddwl o fewn ei rôl. Gall cael staff sydd wedi'u hyfforddi fel Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sy'n ymwybodol o bryder, iselder, camddefnyddio sylweddau neu anhwylderau bwyta, gefnogi aelod o staff i geisio cymorth gan y meddyg teulu neu asiantaethau cymorth eraill.

Bydd cael rhestr o fanylion cyswllt yn yr ystafell staff/llawlyfr staff yn galluogi staff i estyn allan am gymorth Iechyd Meddwl a Lles hefyd.

- [www.mind.org.uk](http://www.mind.org.uk)
- Mae gan y Samariaid wasanaeth neges-destun i gefnogi unigolion a allai gael bod anfon neges-destun yn ffordd sy'n eu cynorthwyo i estyn am gefnogaeth:
- SHOUT85258 i oedolion YM85258 i bobl ifanc
- C.A.L.L sy'n Llinell Gymorth Iechyd Meddyliol i Gymru. Rhadffon 0800 132737 neu decstio 'help' i 81066
- [the-mental-health-wales-measure-2010.pdf (gov.wales)](https://gov.wales)

Bydd cyflwyno staff newydd i'r tîm a darparu cyfaill iddynt hefyd yn tawelu meddwl ac yn cefnogi eich staff i integreiddio â'r tîm a chael rhywun y gallant siarad hefyd os ydynt yn teimlo bod unrhyw beth yn eu llethu. Os ydych chi'n teimlo bod angen cymorth arnoch chi neu'ch tîm o staff mae'n bwysig estyn allan at y meddyg teulu yn y lle cyntaf neu gysylltu â Galw Iechyd Cymru 111 Cymru.

# Cryfhau'r Glud

Fe glywch yn aml nad yr arian sy'n denu pobl i weithio yn y maes Gofal Plant. A'r gorbenion mor uchel, a'r angen i gadw ffioedd yn fforddiadwy i rieni, mae'r cyflog y mae'r staff yn ei haeddu allan o gyrraedd mor aml. Fel sector, rydym yn sgilgar yn meddwl y tu allan i'r bocs, a gellir cymhwyso hyn i sicrhau bod y staff, y glud sy'n dal clybiau'n un darn, yn teimlo eu bod ael eu gwerthfawrogi.

## Ymchwiliwch i'r gystadleuaeth

Pan fyddwn yn llunio'n cynlluniau busnes byddwn yn ymchwilio i'r farchnad i weld pa wasanaethau eraill yn ein hardal ni sy'n cynnig gofal i blant. O'r fan hon gallwn edrych ar sut y gallwn gystadlu â'r rhain a dod o hyd i'n pwynt gwerthu unigryw, ond a ydych erioed wedi ystyried gwneud hyn yng nghyd-destun recriwtio a chadw staff? Sylwyd bod nifer o aelodau staff, o ganlyniad i'r pandemig, wedi dechrau gweithio mewn siopau. Fe wyddom fod hyn wedi deillio o'r angen i ennill incwm o ganlyniad i glybiau'n cau, ond ni ddychwelodd cynifer ohonynt. Pam hynny? Fe wyddom yn hanesiol fod rhai'n teimlo eu bod, am yr un cyflog, â llai o gyfrifoldeb, ond a allem feddwl am rywbeth y gallem ni ei gynnig nad yw'r gystadleuaeth yn ei gynnig? Beth mae cyflogwyr lleol eraill yn ei gynnig o ran cilfanteision? Faint o wyliau a roddir iddynt? A oes ganddynt fynediad at ofal iechyd ychwanegol? Os yw'r rhagolwg llif arian yn caniatáu hynny, a allwch ystyried cynlluniau megis Simply Health? Am gyn lleied â thua £10 y mis fesul cyflogai unigol gallant hawlio costau i dalu cost gofal deintyddol, gofal llygaid, ffisiotherapi preifat ymhlith llawer mwy. Gallant hefyd ychwanegu eu plant eu hunain am ddim a thalu am ychwanegu partneriaid. Gallai hyn fod yn rhywbeth sy'n apelio at staff; a chostau byw mor uchel, bil deintyddol o £100 yw'r peth olaf mae arnynt ei angen!

## Cael y gorau o oruchwyliadau

Weithiau gall yr angen i gynnal sesiwn goruchwylio deimlo fel ymarfer 'ticio'r bocs' y mae gofyn i ni ei gwblhau, ond gall goruchwyliadau fod yn hynod fuddiol. Maent yn rhoi'r cyfle i chi weld go iawn sut mae eich staff yn teimlo a'r hyn y gall fod ei angen arnynt i'w cefnogi, nid yn unig er mwyn cyflawni eu rôl ond i gefnogi eu llesiant. Gall goruchwyliadau gefnogi diwylliant o dryloywder a dealltwriaeth a pheri bod y staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rôl. Mae arian yn bwysig, ond mae boddhad mewn swydd – a gweithio mewn amgylchedd sy'n eich gwneud i deimlo bod croeso i chi a'ch bod yn derbyn parch – yn mynd bellter ffordd i drechu'r dyhead am gyflog uwch.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mewn sesiwn oruchwylio gallwch drafod unrhyw anghenion hyfforddi, nid yn unig er lles y cwmni, ond hefyd i'r staff eu hunain. Mae gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at y ffaith bod gan ddysgu sgiliau newydd effeithiau cadarnhaol ar lesiant meddyliol pobl. Y mae'n rhoi cyfleodd i adeiladu hyder ac ennill synnwyr o fod wedi cyflawni. Mae cwblhau cymwysterau perthnasol yn flaenoriaeth i fusnesau gofal plant, ond nid oes rhaid i hyfforddiant fod ddim ond ynghylch ennill cymwysterau. Gall hyfforddiant for yn hwyl ac yn ysgogiad i'r meddwl. Cynhaliodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ddiwrnod hyfforddi i'w staff eu hunain yn ddiweddar. Roedd y diwrnod cyfan ynghylch datblygiad proffesiynol parhaus, ond roedd hefyd ynghylch rhannu profiadau a gweithgareddau y gallem eu pasio ymlaen i glybiau. Cafodd popeth ei wneud yn fewnol, felly doedd yna ddim cost prynu i mewn hyfforddwyr allanol, ac fe wnaethom dreulio amser yn gwneud smôrs o gwmpas tân gwersyll ac arbrofi â rhannau rhydd. Roedd yr holl bethau'n rhai y gallem eu defnyddio yn eu rolau ein hunain, ond roedd pob un ohonom yn teimlo'n llon ein hysbryd erbyn diwedd y dydd. Gallai hyn fod yn rhywbeth y gallech ei ddarparu unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Bydd yn golygu rhywfaint o gynllunio, a bydd rhywfaint o gost ymhlyg, ond gallai'r manteision tymor-hir gyfiawnhau'r costau hynny.



## Y Plant

Ar ddechrau'r erthygl hon dywedwyd nad arian sy'n denu pobl i weithio ym maes gofal plant, felly pam fod pobl yn dewis y sector hwn yn yrfa? Y plant. Y perthnasoedd yr ydych yn eu meithrin â'r plant yn eich gofalu amdanynt yw rhai o'r perthnasoedd gorau y gallwch eu cael. Mae'r synnwyr o lesiant a deimlwch o weld plentyn yn datblygu ac yn goresgyn heriau yn annhebyg i unrhyw deimlad arall. Mae'r proffesiwn yma'n rhoi'r cyfleoedd i blant fod y fersiwn gorau ohonyn nhw eu hunain; mae'n gwneud gwahaniaeth i'w bywydau a'u hapusrwydd. Mae'n cefnogi teuluoedd, fe ddowch yn berson pwysig ym mywydau cymaint o deuluoedd ac mae gennych effaith, felly atgoffwch y staff o hynny. Rhowch gynnig ar jar atgofion. Gofynnwch i'r staff ar adegau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ychwanegu nodyn ar ddigwyddiad a wnaeth iddynt deimlo'n falch o'r plant, yn unigol, fel rhan o deulu neu fel clwb. A oedd ganddynt blentyn a oedd yn arfer osgoi chwarae llawn-llanast, ond a baentiodd eu dwylo un diwrnod a theimlo'n falch o'u hunain? Rhowch hwn yn y jar. Tynnwch ffotograffau drwy gydol y flwyddyn o'r staff gyda'r plant. Ar ddiwedd y flwyddyn casglwch yr atgofion yma ynghyd, ynghyd â dyfyniadau gan y rhieni, unrhyw beth sy'n dangos eu heffaith, a rhowch y rhain mewn llyfr lloffion a'i gyflwyno i'r staff. Byddai'n atgoffiad prydferth o'r gwahaniaeth pam maent yn gwneud y gwaith y maent yn ei wneud, ac o'r gwahaniaeth a wnânt i fywydau'r plant.

## Rhwydweithio

Dyma ddim ond rhai syniadau y gallech eu defnyddio i gefnogi cadw'ch staff, ond mae llawer mwy, er enghraifft, datblygu perthnasoedd â busnesau Gofal Plant eraill, oherwydd does dim rhaid i hyn fod yn gystadleuaeth bob tro. Rydym oll yn gwneud hyn am fod gennym oll yr un nod – rhoi profiadau o ansawdd i blant, felly manteisiwch ar syniadau pobl eraill a rhannwch eich arferion da chi ag eraill. Ewch i nosweithiau rhwydweithio ar-lein Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs lle gallwch siarad yn anffurfiol ag eraill yn y sector a thynnu o'ch profiadau.

**2022 yw blwyddyn chwarae, gweithio a bod gyda'n gilydd, felly cofiwch ein bod oll – Gydau'n Gilydd – yn rhan o hyn.**

# Prosiectau

# Cymraeg

## Camau Chwarae Dysgu Cymraeg

Ydych chi am ehangu eich gwybodaeth a'ch hyder i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg neu gynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn eich lleoliad Gwaith Chwarae?

Cwrs **Newydd**, hunan astudio, ar-lein ar lefel Mynediad sydd wedi'i deilwra ar gyfer y sector Chwarae yw Camau Chwarae, un sydd wedi ei ariannu'n llawn.

Mae'r cwrs Mynediad 1 yn cynnwys y canlynol:
- 10 Uned (tua 20 awr o ddysgu annibynnol);
- Dysgu Cymraeg i'w defnyddio gyda'r plant yn eich lleoliad Chwarae;
- Adnoddau wedi'u teilwra y gellir eu hargraffu i'w defnyddio yn eich lleoliad

Deilliannau'r Dysgu:
- Cyflwyno eich hun a dweud ble rydych chi'n byw;
- Ynganu'r Wyddor, Lliwiau a dyddiau'r wythnos
- Rhifo rhifau gwrywaidd a benywaidd.
- Cyfarchion syml: Pwy wyt ti? Pwy ydy e / o? Pwy 'dyn nhw?
- Trafod y Tywydd
- Trafod teimladau. Wyt ti'n hapus? ayb
- Cwestiynau syml. e.e.
  - Sut wyt ti heddiw?
  - Beth / Be wyt ti'n wneud?
  - Beth ydy hwn? Triongl ydy e / o
- Gorchmynion Unigol a Lluosog, e.e.
- Cyflwyno 'dy' ac 'eich'.
- Cyflwyno arddodiaid: 'yn y' / 'o dan y'
- Treigladau yn dilyn rhifau:

Bydd ei'n Swyddog Cefnogi Iaith Gymraeg ar law i'ch cefnogi chi ar eich taith a thu hwnt trwy sesiynau cymorth pwrpasol, ymarferol ac ar-lein, a fydd wedi'u teilwra ar eich cyfer. Am wybodaeth bellach cysylltwch â'n Swyddog Cefnogi Iaith Gymraeg: sianej@clybiauplantcymru.org



## Addewid Cymraeg Clwb

Adnodd newydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i gefnogi'r cynnydd o'r defnydd o'r Gymraeg yn cael cymeradwyaeth Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

*"Mae Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg yn falch o gefnogi cynllun Addewid Cymraeg Clybiau, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Dyma ffordd o osod camau clir, uchelgeisiol a hwyliog i'ch aelodau rannu'r Gymraeg gyda'u mynychwyr, staff a theuluoedd ehangach. Trwy ymrwymo i'r Addewid, bydd modd i'r Clybiau ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg, a chreu awyrgylch lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o'r ddarpariaeth maen nhw'n ei chynnig i'r plant.*

*Trwy ddefnyddio trefn efydd, arian ac aur, mae modd i bob clwb ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd sy'n addas ar eu cyfer nhw. Unwaith byddant wedi meistroli un lefel, bydd modd iddynt ymgeisio i wneud mwy eto gyda chefnogaeth barod Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Bydd yr adnoddau sydd ar gael trwy Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cynnig cefnogaeth ymarferol, a bydd y cymorth ehangach e.e. trwy gynllun Camau, yn golygu bod cyfle gwirioneddol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sector.*

*Bydd y Tîm Hybu yn falch o gynnig cefnogaeth bellach i unrhyw gwmni neu sefydliad sy'n awyddus i lunio Cynllun Datblygu'r Gymraeg ac ymgeisio am gydnabyddiaeth gan y Comisiynydd am Gynnig Cymraeg, yn ychwanegol at yr Addewid.*

*Edrychwn ymlaen at glywed am lwyddiant a mwynhad y clybiau wrth iddynt fynd ar hyd y daith hon."*

Camau Cymraeg Clybiau

CYMRAEG Dysgu Learn

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Tyfu'ch Gwledd Eich Hun

Syniadau rhad ac am ddim a hwyliog i alluogi plant i fwynhau'r awyr agored a chadw'n iach, tra byddant yn tyfu ac yn coginio eu gwledd eu hunain – ewch i www.clybiauplantcymru.org/projects.asp

Mae'r hydrefn yn dymor o ddathlu byd natur â gwleddoedd llawn cysur gyda theulu a ffrindiau, a'r cyfan yn gymorth i roi hwb i'n gwydnwch meddyliol a'n hiechyd corfforol. Dathlwch gyda'n hystod ardderchog o syniadau ynghylch fforio ynghyd â ryseitiau hydrefol – yn cynnwys y rhai y gallwch eu coginio y tu allan ar dân agored – yn ein pecyn Tyfu'ch Gwledd eich Hun. Mae'r hydref yn amser perffaith i gasglu ffrwythau, rhannu ryseitiau a choginio, ynghyd ag aelodau/pobl hŷn a phrofiadol yn eich cymuned, gan rannu sgiliau oes a gwella ansawdd bywyd i bawb.

Lawrlwythwch ein pecyn Tyfu'ch Gwledd eich Hun sydd ar ardal aelodau ein gwefan, www.clybiauplantcymru.org neu mynnwch gip ar y dewis o gardiau gweithgaredd Tyfu'ch Gwledd eich Hun ar ein tudalen prosiectau. Mae rholiau pitsa, myffins oren a popcorn, y gallwch eu coginio oll ar dân gwersyll, yn drîts awyr-agored arbennig i'w gwneud a'u bwyta, a dod o gordial aeron-ysgaw cartref, sbeislyd i'w dilyn.

### Cordial Sbeislyd Aeron Ysgaw

Os gwnaethoch unrhyw gordial aeron-ysgaw o flodau'r Ysgawen, ystyriwch ddefnyddio'r goeden ryfeddol yma eto i gasglu ei glystyrau sgleiniog o fwyar tywyll, porffor-ddu. Maen nhw'n gyfoethog y tu hwnt o sylweddau o'r enw anthocyanin sy'n help i roi hwb i'ch system imiwnedd a chadw germau ar bellter, gan felly ein helpu ni i gadw'n iach yn ystod y tymor oerach. Gwnewch gordial aeron-ysgaw sbeislyd, blasus tu hwnt, gyda'r plant i'ch cadw'n iach. Gallwch hefyd rewi'r mwyar i'w defnyddio'n hwyrach yn y flwyddyn, ond cofiwch i gymryd ddim ond cymaint ag y byddwch eu hangen, gan fod ar anifeiliaid, trychfilod ac adar yn ogystal angen yr aeron ysgaw.

Mynnwch gip ar Fforio am Aeron ar dudalen prosiectau ein gwefan, i gael cynghorion campus gan ein harbenigwr ar fforio, Adele Nozedar.

## Tyfu'ch Gwledd eich Hun
Fforio

Fforio

### Elicsir danteithol Aeron Ysgaw

Mae aeron ysgaw'n aeddfedu rhwng mis Awst a mis Hydref, gan gymryd lle'r clystyrau o flodau'r ysgaw a welwyd yn gynharach yn y flwyddyn - ddiwedd y gwanwyn - ar berthi yn y wlad ac mewn parciau/gerddi dinasoedd.



### Bydd arnoch angen
- 20 llond llaw o aeron ysgaw, wedi'u tynnu o'r coesynnau
- Sudd un oren
- Sudd un lemwn
- 250g o siwgr o'ch dewis eich hun (neu fêl os yw'n well gennych)
- 1 ffon sinamon
- Darn 4cm o sinsir ffres
- Ychydig o glofau
- I seren anis
- I pod cardamom gwyrdd

### Beth i'w wneud
1. Rhowch yr aeron mewn padell drom â chaead. Ychwanegwch y sudd oren a lemwn, ac yna ddigon o ddŵr i orchuddio'r aeron o ryw 3-4cm. Ychwanegwch y cyfan o weddill y cynhwysion.
2. Dowch â'r gymysgedd at bwynt berwi. Gorchuddiwch a'u gadel i ferwi am ddim ond rhyw ddau funud. Dowch â'r gwres i lawr a'u gadael i fudferwi am 15-20 munud. Yna gosodwch i un ochr dros nos.
3. Casglwch y cynhwyswch mwyaf, megis y ffrwythau, y sinamon a.y.b. o'r badell. Straeniwch yr hylif drwy ogr mân - peidiwch â phoeni os aiff ambell i ddarn bychan drodd. Gellir defnyddio'r sinsir, y sbeisys a.y.b. i wneud siytni neu bicl. Gadewch i'r hylif ddiferu drwy'r gogr nes eich bod yn meddwl nad oes mwy o hylif ar ôl; yna gwasgwch hyd yn oed yn fwy allan â chefn llwy!
4. Gan ddefnyddio lletwad a thwndish, arllwyswch yr hylif i boteli 500ml o ddŵr, gan adael le iddo ehangu, gan y gallwch ei rewi hyd nes bydd angen yr elicsir. Gallwch hefyd ei storio mewn dysglau ciwbiau iâ.
5. Nid yn unig y mae'r surop sbeisiog yma'n llesol i chi, gallwch ei arllwys dros eich uwd neu'ch iogwrt neu ei deneuo â dŵr neu laeth cynnes i wneud diod boeth ddanteithiol!

#### Cyngor Iechyd a Diogelwch
- Dylai oedolion oruchwylio berwi'r cymysgedd.
- Cymerwch eich toriadau aeron ysgaw o wahanol fathau o goed, gan fod eu hangen ar adar ac anifeiliaid yn yr hydref.

#### Ffeithiau Hwyliog
Darganfuwyd gan wyddonwyr fod aeron ysgaw yn gyfoethog iawn mewn pethau a elwir yn anthocyaninau sy'n helpu i roi hwb i'ch system imiwnedd a hefyd yn cadw germau annifyr i ffwrdd. Golyga hyn y bydd yr aeron yn eich helpu i gadw'n iach yn ystod y tywydd oerach.

**Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd CF14 5UW
**T:** 029 2074 1000 **F:** 029 2074 1047 **E:** info@clybiauplantcymru.org
Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen cofrestredig 1093260

TESCO Bags of Help | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# Recriwtio Staff Cymraeg i'ch Lleoliad

### A ydych am wella'ch gwasanaethau yn y Gymraeg?

Trwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich lleoliad byddwch yn:

- Cynyddu'r cyfleoedd i blant Cymraeg eu hiaith i glywed a siarad Cymraeg
- Gwella'r gwasanaeth Cymraeg yr ydych yn ei ddarparu ar gyfer teuluoedd Cymraeg
- Rhoi cyfleodd i'ch staff ddysgu Cymraeg a'i defnyddio wrth eu gwaith
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn eich cymuned

Yr her i leoliadau wrth ddechrau darparu rhywfaint o'u darpariaeth yn y Gymraeg yw nifer eu staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg; y ffordd fwyaf effeithiol i wneud hyn yw recriwtio neu hyfforddi staff â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol.

Wrth recriwtio staff newydd, gallech asesu a oes angen sgiliau yn yr iaith Gymraeg.

### A oes plant Cymraeg eu hiaith yn mynychu eich lleoliad? A ydych yn darparu gwasanaethau amlapiol o ysgolion cyfrwng-Cymraeg?

Yna ystyriwch roi'r swydd mewn un o'r categorïau canlynol:

- Mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- Mae angen dysgu sgiliau iaith-Gymraeg ar ôl cael eu penodi i'r swydd
- Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Dylid datgan y categori pan hysbysebir y swydd ac yna rhaid hysbysebu'r swydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yr holl dempledi recriwtio dwyieithog y bydd eu hangen arnoch yn Camu Allan yn ardal aelodau'r wefan.

### Ble gallwch hysbysebu?

Mae Hysbysebu swyddi ar-lein yn parhau i fod y ffordd fwyaf effeithiol – a'r opsiwn mwyaf llwyddiannus – wrth i frwydro heddiw i ddod o hyd i'r bobl gywir. Gallwch hysbysebu swyddi drwy Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ddim ond trwy ymweld â'n gwefan a llenwi ffurflen syml sy'n cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol ar gyfer y swydd, yn cynnwys y lefel ofynnol yn yr iaith Gymraeg. Gellir hysbysebu'n ddwyieithog ar ein tudalen Facebook yn ogystal, a thrwy:

- Cyfryngau cymdeithasol eraill
- Lleol.cymru Golwg360
- Gofalwn.cymru
- Ysgolion Cymraeg lleol
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

### Lefel yn y Gymraeg

Pan fyddwch yn recriwtio ar gyfer siaradwyr Cymraeg bydd angen i chi ystyried pa lefel o Gymraeg y bydd ei hangen arnynt. Gellir defnyddio Gwirydd Lefel Iaith Gymraeg Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn arwydd o lefel y cyflogai yn y Gymraeg, rhoddir pob sgil/lefel. Gwirydd Lefel Iaith Gymraeg

Gallech ddefnyddio'r lefelau sgiliau i roi darlun ymarferol o'r sgiliau Cymraeg sydd yn angenrheidiol ar gyfer y swydd. Mae'n bosibl na fydd angen lefel uchel o hyfedredd yn y swydd a gallai sgiliau lefel Mynediad yn y Gymraeg, neu ddysgu hyd at lefel Mynediad wedi penodi, fod yn ddigonol i'r swydd.

Gall recriwtio'r staff gorau sydd â'r cymwysterau Gwaith Chwarae cywir fod yn ddigon heriol heb nodi sgiliau iaith ychwanegol penodol. Ond **a wyddech chi** y gall eich staff presennol gyflawni'r Lefel Mynediad lawn i'r Gymraeg trwy Gwrs hunan-astudio Camau, sydd wedi ei ariannu'n llawn?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch recriwtio staff Cymraeg eu hiaith, neu os hoffech wybodaeth bellach ar Lefel Mynediad cwrs Camau, cysylltwch â'n Swyddog Cefnogi Iaith Gymraeg, sianej@clybiauplantcymru.org, os gwelwch yn dda.





# Cynghorion campus ar gyfer cyfweliadau llwyddiannus

Sicrhau eich bod yn cyflogi'r person cywir yw'r prif ffocws mewn proses gyfweld. Tra bo'n rhaid, wrth reswm, i ymgeiswyr baratoi am gyfweliadau, y mae hefyd yn bwysig eich bod chi, fel cyfwelwr, yn ogystal yn rhoi amser i baratoi, er mwyn sicrhau bod y broses mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

1. Adolygwch y Fanyleb Person a'r Disgrifiad Swydd. Beth yw prif ofynion y rôl hon? Beth yw'r ffyrdd gorau o ddarganfod pa mor dda y mae'r ymgeiswyr yn bodloni'r rhain? Os oes angen iddynt ddod ag unrhyw beth gyda nhw (e.e. tystysgrifau), gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod iddynt am hyn ymlaen llaw. Beth yw'r cwestiynau gorau i'w gofyn er mwyn gwybod yr hyn y mae angen i chi ei wybod?
2. Dadansoddiad o'r bwlch sgiliau – ar wahân i hyn a nodir yn y Disgrifiad Swydd, pa sgiliau eraill a fyddai'n ddefnyddiol i'r cyflogai newydd eu cael? A oes gennych ddadansoddiad sgiliau o'ch tîm presennol o staff? Gall myfyrio ar hyn, a lle y gellir bod bylchau, neu feysydd y gellid eu gwella (e.e. sgiliau TG, cymwysterau neu ddiddordebau e.e. chwaraeon, cerdd, celf) eich helpu i ganolbwyntio ar yr hyn i'w ofyn i bob ymgeisydd a pha bethau i'w blaenoriaethu.
3. Adolygwch y wybodaeth ar y cais/y CV. Cymerwch amser i ailddarllen y cais/CV cyn pob cyfweliad, gan nodi'r meysydd yr hoffech ofyn yn eu cylch/gofyn iddynt ymhelaethu arnynt.
4. Paratowch ar gyfer y cwestiynau. Mae'n beth arferol i ddod â phob cyfweliad i ben trwy ofyn a oes gan yr ymgeisydd unrhyw gwestiynau i chi. Meddyliwch ymlaen llaw am yr hyn y gallent ei ofyn, a sut yr hoffech ateb.
5. Gwnewch gyswllt llygad a gwenwch. Er ei bod yn ddefnyddiol ysgrifennu nodiadau i'ch atgoffa o'r atebion a roddwyd, gall fod yn ddigon annymunol i gyfweleion os ydych yn edrych i lawr ar bapur y rhan fwyaf o'r amser. Ceisiwch gael digon o gyswllt llygad a fydd yn helpu i greu awyrgylch cadarnhaol, cyfeillgar a'u gwneud yn gartrefol. Byddwch yn wrandäwr gweithiol!
6. Byddwch yn benodol. Weithiau bydd pobl yn ymestyn y gwir mewn perthynas â'u profiad/sgiliau. Bydd bod yn benodol yn eich cwestiynau, a thynnu sylw at fanylion ychwanegol pan roddir atebion amwys, yn helpu i sicrhau bod gan bob ymgeisydd brofiad addas (a hefyd nad ydynt yn tan-werthu eu hunain). Gofynnwch am enghreifftiau penodol.
7. Gofynnwch am unrhyw swyddi tymor byr y maent wedi'u cael. Gall fod llawer o resymau pam fod pobl yn gadael swyddi ar ôl cyfnod byr, ond os yw'n duedd gyffredin gallai hyn achosi pryder. Gall sefydlu staff gymryd amser ac egni ac rydych chi am sicrhau cymaint â phosibl bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn mynd i aros!
8. Gofynnwch am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gall fod yn werth darganfod ble maent pam yn gweld eu hunain ymhen 6 mis, blwyddyn a 2 flynedd. Gall hyn eich helpu i ddeall eu disgwyliadau ar gyfer dilyniant a sut orau y gallwch eu cefnogi os ydynt yn llwyddo i gael y rôl.
9. Darparwch strwythur heb anhyblygrwydd. Mae'n dda cael rhestr o gwestiynau i sicrhau eich bod yn bod yn deg â phob ymgeisydd a'ch bod yn ymdrin â'r pethau y mae angen i chi eu gwneud. Mae'r cysondeb hefyd yn ei gwneud hi'n haws cymharu cyfweleion. Fodd bynnag, mae hefyd yn dda bod yn hyblyg yn eich dull. Gwrandewch ar yr atebion a roddir a gofynnwch gwestiynau dilynol neu geisiadau am eglurhad ychwanegol lle bo angen.
10. Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â Deddfau parthed Gwahaniaethu a sicrhewch fod eich proses recriwtio yn ei chyfanrwydd yn deg ac yn hygyrch i bawb. Osgowch drafod meysydd fel statws, rhyw, crefydd, ethnigrwydd, oedran neu anabledd yn ystod y cyfweliad.

### Cyfweliadau Chwareus

Na, nid cellwair gydag ymgeiswyr neu daclo rygbi wrth iddyn nhw ddod drwy'r drws a olygir gennym yma… ond a ydych chi'n cynnal eich cyfweliadau mewn ffordd chwareus ar hyn o bryd? Gall fod yn anodd iawn dweud mewn cyfweilaid ffurfiol sut Weithiwr Chwarae a fydd rhywun. Efallai y bydd gennych ymgeisydd sy'n dda iawn am ateb cwestiynau cyfweliad, ond sy'n llai parod i roi'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith. Neu efallai y bydd rhywun sy'n baglu trwy gyfweliad ac yn glwm ei dafod yn llawn angerdd a hudoledd pan ddaw hi'n fater o hwyluso cyfleoedd chwarae i'r plant yn eich clwb.

Os yw'n bosibl, mae'n wych gwahodd ymgeiswyr i sesiwn lle gellir arsylwi arnynt yn rhyngweithio â'r plant ac yn hwyluso gweithgareddau. Hyd yn oed os nad yw hyn yn bosibl, gallech gyflwyno chwarae i'ch cyfweliad. Gallech:

- Roi darnau rhydd ar hyd a lled y bwrdd a gofyn iddyn nhw greu rhywbeth
- Gofynnwch iddyn nhw ddysgu eu hoff gêm i chi
- Gofynnwch iddyn nhw ddod â detholiad o ddarnau rhydd gyda nhw a gofynnwch iddyn nhw yn y cyfweliad beth yn eu tyb nhw a fyddai'r plant yn ei wneud â nhw.
- Rhowch un rhan rydd iddyn nhw (e.e. ffon) a gofynnwch iddyn nhw feddwl am gynifer o bethau â phosibl y gallai 'fod' (neu gynifer o ffyrdd y gellid ei defnyddio) (chwarae symbolaidd)
- Gofynnwch i blant y clwb ofyn rhai cwestiynau – naill ai'n bersonol, neu gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu cwestiynau o flaen llaw.

Byddem wrth ein bodd yn clywed am sut rydych wedi ymgorffori chwarae yn eich proses gyfweld!



# Hyfforddiant

Mae pob cofrestriad ar brentisiaethau yn cael eu cwblhau trwy ddefnyddio llwyfannau diogel, ac mae'r llwyfan a ddefnyddir yn dibynnu ar y contractiwr y byddwch yn cofrestru gydag ef. I ddysgwyr a fydd wedi cofrestru trwy Hyfforddiant Cambrian y system a ddefnyddir i gofrestru prentisiaethau yw IPEGS, a bydd defnyddio hon yn ein galluogi i gwblhau'r canlynol:

- Pecyn Cychwyn y Dysgwr
- Arfarniad Iechyd a Diogelwch y Cyflogwr
- Dogfen Monitro Iechyd a Diogelwch y Cyflogwr/y Lleoliad Gwaith
- Yn ogystal â'ch CCC (Cofnod Cyflawni Cynnydd) sef eich adolygiadau misol.

Mae cwmni hyfforddi ACT yn defnyddio system debyg o'r enw etrack, lle'r anfonir dolen at brentisiaid er mwyn iddynt gwblhau gwybodaeth gychwynnol ac, o Awst 2022 ymlaen, yr holl waith papur, bydd yr adolygiadau a'r Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU) yn cael eu cwblhau'n electronig gan ddefnyddio 'Signable'.

Cyn eich cofrestru, ac er mwyn cyfateb â'r gofynion ariannu, gofynnir i bob prentis ddangos dogfennau i yn brawf o'r lle y maen nhw'n byw, ble mae'n nhw'n gweithio, yr hawl i f yw a gweithio yn y DU, yn ogystal â modd adnabod. Bydd angen i brentisiaid fod â dogfennau megis barbo rtau, tystysgrif geni, slip tâl cyflogaeth, bil cyfleustod i'w uwchlwytho fel dogfennau prawf.

Mae'n hanfodol bod gan brentisiaid y dogfennau hyn wrth law, a'u bod wedi eu hanfon at eu Swyddog Hyfforddi cyn cofrestru er mwyn gwneud y broses mor llyfn â phosibl. I'r dysgwyr hynny sy'n cael eu cofrestru drwy iPEGS, mae'r ffurflen a lenwir yn ddogfen fyw, ac nid oes modd i chi adael y ffurflen unwaith eich bod wedi dechrau ei llenwi, felly mae'n hanfodol, bod y cyfan hwn yn cael eu hanfon pan fydd y Swyddog Hyfforddi'n gofyn am y dogfennau gofynnol, fel y gellir eu uwchlwytho heb unrhyw anawsterau.

**Siart llif cymwysterau: pa gymhwyster sydd orau ichi?** Pa gymwysterau sydd angen ar eich staff i weithio yn eich lleoliad? Dyma siart llif defnyddiol i'ch helpu i ddewis cymhwyster addas.

### Contractwyr Prentisiaethau

Os ydych yn ymgymryd â phrentisiaeth gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs mae'n bwysig gwybod y gallwn is-gontractio trwy ddarparwyr prentisiaethau mwy, sef
Hyfforddiant ACT
Hyfforddiant Cambrian
Coleg Penfro (B-wbl)

Golyga hyn, er mai Swyddog Hyfforddi a fydd yn eich cofrestru i ymgymryd â'r cwrs drwy Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, y bydd y gwaith papur, yn ogystal â rhywfaint o'r cysylltu a wneir â chi i roi adborth yn dod trwy'r darparwr unigol; bydd yr hyfforddiant a'r cyflenwi, ynghyd â'r gwaith tîm i gyflenwi'r cymwysterau drwy Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn aros yr un fath.

# Prentisiaethau:
## Eich cofrestru

### E-Bortffoliau: beth ydyn nhw?

Yn rhan o unrhyw gymhwyster y byddwch yn ymgymryd ag ef drwy Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs bydd disgwyl i chi gynhyrchu portffolio o dystiolaeth sy'n dangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o waith chwarae; gwneir hyn yn awr trwy Ecordia, sy'n e-bortffolio ar-lein diogel.

Pan fyddwch yn cofrestru ar gwrs anfonir manylion mewngofnodi i'ch cyfrif Ecordia eich hun, y bydd gennych chi a'ch aseswr fynediad ato. Bydd hyn yn eich galluogi i uwchlwytho, cyflwyno a derbyn tystiolaeth, a bydd hefyd yn golygu y gallwch weld eich cynnydd drwy'r ganran a enillir; bydd hefyd yn gallu rhoi i chi adroddiadau bwlch i chi i ddangos ichi'r hyn sydd ar ôl i'w gwblhau fesul uned.

Ecordia yw u n o'r e-bortffoliau symlaf ar gael i'w defnyddio, a does bosib i chi ei dorri, ond rydym yn deall y gall y syniad o ddefnyddio e-bortffolio beri braw, a dyna pan fydd ein Swyddog Hyfforddi yna i siarad drwy'r broses a chefnogi.

### Rhaglen Brentisiaethau

Mae'r rhaglen brentisiaeth yn gymysgedd o sesiynau'n seiliedig ar waith a sesiynau a ddysgir, gydag aseswr yn ymweld â'r dysgwr yn eu lleoliad.

Bydd hyn yn arwain i'r cymwysterau canlynol

| Prentisiaeth Sylfaenol | Prentisiaeth |
|---|---|
| Diploma Lefel 2 CACHE mewn Gwaith (QCF) (NVQ) | Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gwaith (QCF) (NVQ) |
| City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru, Lefel 1 mewn Cyfathrebu** | City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru, Lefel 2 mewn Cyfathrebu** |
| City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 1 mewn Cymhwyso Rhif** | City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2 mewn Cymhwyso Rhif** |

**yn ddibynnol ar gymwysterau presennol y dysgwyr. Os ydynt eisoes â'r cymwysterau yma, rhaid i chi ddarparu copïau o'r tystysgrifau wedi'u sganio cyn y sesiwn cofrestru, ac yna byddwch wedi'ch eithrio rhag ymgymryd â'r cymwysterau hyn.

Bydd gofyn i'r Dysgwyr gyfarfod â'u haseswr bob 4 wythnos dros gyfnod o 12 – 18 mis yn y gweithle i adolygu a hael asesiadau o fedrusrwydd mewn swydd.

Fel dysgwyr bydd gofyn i chi:

1. Weithio 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd (gall hyn gynnwys mynychu sesiynau hyfforddi).
2. Fynychu sesiynau hyfforddi (mae'r rhain yn cael eu cyflenwi trwy sesiynau Zoom ar hyn o bryd.
3. Gorffen gwaith erbyn y terfynau amser a roddir.





# Codi Arian

### Hwyl wrth Hel Arian

- Sêl Pethau Pôb - pwy nad yw'n hoff o sêl glasurol y pethau pob? Gofynnwch i'r staff a'r plant wneud ambell i ddanteithyn gartref a mwynhewch sêl y pethau pob. Hefyd gall y plant fod yn rhan o werthu a hyrwyddo'r sêl!
- Diwrnodau gwisg ffansi - Ffordd wych o godi arian unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gofynnwch i'r plant ddod i'r clwb mewn gwisg ffansi a thalu rhodd fechan am y diwrnod. Cyngor campus: beth am adael i'r plant bleidleisio dros eu hoff wisgoedd i ddod o hyd i enillydd?
- Parti Calan Gaea' – Yr unig beth gwell na gwisgoedd ffansi i godi arian yw gwisgo i fyny ar Galan Gaea'. Felly allan â'ch gwahoddiadau a chodwch ffi fynediad ar y gwesteion i dreulio'r noson yn dowcio'u hafalau i gyfeiliant 'Thriller'.
- Noson Garioci – Mae'n bryd ymarfer y llais a pharatoi am noson o garioci. I'r rhai sy'n ei garu a'i gasáu, mae'n ffordd wych o godi arian. Os byddwch yn chwilio am beiriant caraoce, holwch eich ffrindiau ar y cyfryngau cymdeithasol i arbed y gost o'i rentu.

### Moondance Foundation

Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod yn cydweithio unwaith yn rhagor â'r sefydliad, Moondance Foundation, i gefnogi ein sector i oroesi a ffynnu yng Nghymru wedi'r Pandemig. Drwy'r arian a dderbyniwyd gan sefydliad Moondance gallwn yn awr gynnig grantiau o gefnogi /cynnal y clybiau presennol a datblygu clybiau a lleoedd newydd, wedi eu teilwra'n benodol ar gyfer lleoliadau Gofal Plant Allysgol dros Gymru Gyfan.

Ar hyn o bryd mae gennym nifer cyfyngedig o grantiau, gwerth £1,500 yr un, sydd ar gael i gefnogi cynaliadwyedd y mannau cyfarfod, a £3,500 gynorthwyo clybiau newydd wrth iddynt ddatblygu.

Dyfernir grantiau ar sail gylchol hyd nes y bydd yr ariannu wedi ei neilltuo. Am fwy o fanylion cysylltwch â membership@clybiauplantcymru.org

### Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nidywsiopaar-leindrwywww.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.

### e-newyddion

Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef **www.clybiauplantcymru.org** ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonir rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost i membership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.

# Gofalwn Cymru

### Hysbysebwch eich swyddi gwag am ddim

A oes gennych chi swyddi gwag i'w llenwi? Os felly, beth am eu hysbysebu am ddim ar borth swyddi Gofalwn Cymru?

Mae'r porthol, sy'n eich helpu i ddod o hyd i'r bobl briodol gyda'r gwerthoedd priodol, yn eich galluogi i gyhoeddi a rheoli eich swyddi gwag mewn un lle, ynghyd â'ch rhestr o ymgeiswyr.

Os hoffech chi hysbysebu eich swydd wag ar y porthol, bydd angen i chi gofrestru a chreu proffil ar wefan Gofalwn Cymru

### Pam ddylech chi gynnig rhaglen brentisiaeth?

Mae Gofalwn Cymru wedi bod yn siarad â chyflogwyr ledled Cymru i helpu i ddeall manteision recriwtio prentisiaid i'r sector
(626) Gofalwn Cymru, Prentisiaethau mewn gofal - YouTube

### Cefnogi Gofalwn Cymru

Mae Gofalwn Cymru yn ceisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, a denu mwy o bobl gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir i weithio mewn swyddi gofal gyda phlant ac oedolion.

I gefnogi Gofalwn Cymru ar gyfryngau cymdeithasol, tagiwch #GofalwnCymru neu #WeCareWales yn eich negeseuon:
Facebook: @GofalwnCymru @WeCareWales
Trydar: @GofalwnCymru @WeCareWales
Instagram: @gofalwncymrucares

Er mwyn cael mynediad at ein pecyn cymorth rhanddeiliaid, lle gallwch lawrlwytho deunyddiau Gofalwn Cymru a allai fod yn ddefnyddiol i chi, bydd angen i chi nodi'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair canlynol:

www.Gofalwn.cymru/pecyn-cymorth-rhanddeiliaid/

1. Enw defnyddiwr: Rhanddeiliaid
2. Cyfrinair: Toolkit_WeCare!

Gofalwn.cymru | WeCare.wales

# Grym Adolygiadau

Mae Covid-19 wedi newid y diwylliant gwaith ledled y byd yn sylweddol ac mae'n debygol y bydd rhai newidiadau'n parhau ymhell ar ôl i'r firws ei hun gilio. O'r blaen, y mai'r prif reswm dros ddefnyddio Clybiau Brecwast, Clybiau Ar Ôl Ysgol a Chlybiau Gwyliau oedd caniatáu i rieni/gofalwyr fynd i'w man gwaith. Mae'r newid i weithio gartref neu ddulliau mwy ystwyth o weithio yn golygu bod llawer o fusnesau gofal plant yn gorfod adolygu eu dulliau o farchnata eu busnes ac apelio nid yn unig at y rhieni hynny sy'n mynd allan i weithio, ond hefyd at y rhieni hynny a allai efallai ymdopi heb ddefnyddio clwb ond a allai ddewis ei ddefnyddio os gwelant y manteision y maent yn eu cynnig i'w plant.

Mewn byd sydd â marchnad gynyddol 'brysur' yn cynnig nwyddau a gwasanaethau, mae'n hanfodol eich bod yn denu sylw. Bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr heddiw yn aml yn troi at farn a phrofiadau pobl eraill i helpu i lywio eu hymddygiad prynu, er gwneud penderfyniadau gwario ysbeidiol o bryd i'w gilydd. Er yr arferid gynnal adolygiadau wrth basio ar y stryd neu ar adegau casglu o'r ysgol, mae'r cynnydd ym mhoblogrwydd cyfryngau cymdeithasol ynghyd â siopau ar-lei,n lle gellir graddio ac adolygu eitemau/ gwasanaethau, wedi golygu bod gan bobl lawer fwy o wybodaeth ar flaenau'u bysedd. Mae gwaith ymchwil wedi canfod bod 72% o bobl yn ymddiried mewn adolygiadau ar-lein gymaint ag argymhellion personol gan bobl 'go iawn'; mae 68% yn defnyddio adolygiadau cyfryngau cymdeithasol a 90% o bobl yn dweud bod adolygiadau ar-lein cadarnhaol yn effeithio ar eu penderfyniadau prynu.

Os gall rhiant dreulio oriau yn treillio trwy adolygiadau ar Amazon wrth chwilio am ficrodon newydd er mwyn bod yn sicr eu bod yn gwneud penderfyniad da, mae'n debygol y byddai cael gwybodaeth hawdd ei chael am ddewisiadau gofal plant neu gyfleoedd chwarae i'w plant hefyd yn gymorth i wneud penderfyniadau. Mae adolygiadau'n meithrin ymddiriedaeth, maent yn aml yn cynnig gwybodaeth ychwanegol ac yn lleihau'r canfyddiad o risg o wneud penderfyniad 'gwael'.

Felly sut allwch chi wneud y gorau o rym adolygiadau?

- Sicrhewch fod eich tudalen Facebook yn caniatáu adolygiadau.
- Cynyddwch eich presenoldeb cyfrwng-cymdeithasol. Defnyddiwch god QR ar hysbysfwrdd / cylchlythyr / drws i fynd â rhieni'n syth at eich tudalennau cyfrwng-cymdeithasol fel y gallant eich dilyn, a gobeithio gadel ambell i adolygiad eu hunain.
- Gofynnwch am adolygiadau. Os yw rhiant/gofalwr yn rhoi adborth cadarnhaol ar lafar, gofynnwch iddynt lenwi arolwg adborth / adolygiad ar-lein.
- Defnyddiwch y dyfyniadau cadarnhaol a adawyd ar safleoedd y cyfryngau cymdeithason / holiaduron bodlonrwydd. Gallech ddefnyddio ddyfyniad byr i greu ased cyfrwng-cymdeithasol drwy Canva, neu ddim ond defnyddio'r dyfyniad yn eich marchnata.

Er y gall adolygiadau cadarnhaol fod yn dda iawn i'ch busnes, gall adolygiadau negyddol wneud llawer o niwed. O ganlyniad, mae'n bwysig cadw llygad barcud ar yr adolygiadau a roddir. Os oes meysydd i'w gwella'n adeiladol wedi'u nodi mewn adolygiadau, ewch i'r afael â hyn a dangoswch sut rydych chi'n defnyddio adborth i wella'ch busnes yn barhaus. Gallwch hefyd sefydlu opsiynau trwy gyfryngau cymdeithasol i 'adolygu'ch adolygiadau' a'ch sylwadau cyn iddynt gael eu postio.



# Cadw Staff

## - creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol

Mae gweithle cynhwysol yn un lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae sicrhau bod eich staff yn cydweithio'n effeithiol, eu bod yn llawn cymhelliant a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi felly yn hanfodol i ansawdd eich darpariaeth, i gadw staff, ac er budd teuluoedd sy'n defnyddio'ch gwasanaethau. Sut gallwch chi feithrin gweithlu cynhwysol ac amrywiol?

- Cefnogwch yr holl staff i ddatblygu a gwneud cynnydd. Mae Cynlluniau Datblygu yn bwynt trafod hanfodol o fewn sesiynau goruchwylio a dylai pob aelod o staff ar bob lefel profiad gael y cyfle i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a DPP.
- Sicrhewch fod yr holl reolwyr a'r holl staff yn deall polisïau, a'u bod wedi'u hymgorffori yn eich ymarfer sy'n ymwneud â chydraddoldeb, recriwtio teg ac amodau gwaith.
- Rhagwelwch, nodwch ac ewch i'r afael ag unrhyw densiynau posibl yn y gweithle, neu ymddygiadau bwlio, ar unwaith. Mae'n debygol y bydd gennych bolisi Gwrth-fwlio ar waith, ond efallai y byddwch yn ystyried hyn yn fwy yn achos y plant yr ydych yn eu cefnogi yn hytrach na'ch staff. Dylid cymryd unrhyw adroddiadau o fwlio o ddifrif a'u trin â pharch, hyd yn oed os yw eich profiad chi o'r aelod o staff sydd wedi'i gyhuddo o ymddygiad bwlio yn wahanol. Gall fod yn anodd adnabod bwlio yn y gweithle. Gall yr arwyddion gynnwys cam-drin parhaus ( bychanu / bychanu / jôcs amhriodol), cam-ddefnyddio systemau hierarchaidd i roi rhai unigolion dan anfantais, neu ymddygiadau gwahardd. Sicrhewch fod gennych weithdrefn glir yn ei lle ar gyfer ymdrin ag ymddygiad bwlio a pheidiwch â throi llygad dall.
- Sicrhewch fod gweithgareddau adeiladu tîm / y tu allan i'r gwaith yn gynhwysol ac ystyried dewisiadau, galluoedd a chredoau amrywiol yr holl staff. Gall gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod gwaith fod yn ffordd wych o ddatblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol, cefnogi lles a hybu morâl. Er y gall fod yn anodd dod o hyd i un gweithgaredd a fydd yn addas ar gyfer yr holl staff, gallwch geisio sicrhau, os nad yw un gweithgaredd yn bodloni dymuniadau aelod penodol o staff/grŵp, bod y gweithgaredd nesaf a drefnir yn gwneud hynny. Hefyd sicrhau bod strategaethau cynhwysol yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo'n llawn gan uwch staff, sy'n arwain trwy esiampl
- Rhowch gyfleoedd i bob aelod o'r staff roi adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy arolygon a goruchwyliaeth. Cymerwch bob adborth sy'n ymwneud â chynhwysiant, bwlio neu wahaniaethu o ddifrif, cadw golwg ar dueddiadau cyffredin a gweithredu.
- Myfyriwch ar yr amrywiaeth o fewn eich tîm. Mae timau sy'n amrywiol eu cyfansoddiad ac yn adlewyrchu'r gymuned y mae'r clwb yn ei gwasanaethu yn gallu dod o hyd i ddewis ehangach o atebion i broblemau, syniadau arloesol i ddatblygu'r ddarpariaeth, ac yn y pen draw maent yn gallu diwallu anghenion teuluoedd a phlant lleol yn well.
- Cynhaliwch adolygiad cynhwysiant. Gallai hyn olygu adolygu demograffeg eich staff (e.e. oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, grŵp ethnig, crefydd, anabledd) yn erbyn rôl swydd, cyfraddau cadw a chyflog. Gallai hefyd gynnwys ymgynghori â staff, e.e. defnyddio holiadur i ennill dealltwriaeth o ganfyddiadau ynghylch: - triniaeth deg, - ymddiriedaeth, - perthyn, - amrywiaeth - diogelwch seicolegol. Gyda'r data hyn, gall Rheolwyr wedyn fyfyrio ar dueddiadau neu achosion sy'n peri pryder, a defnyddio hyn i weithredu newidiadau proses (e.e. yn ymwneud â recriwtio, dilyniant, rheoli staff).
- Ewch ati i farchnata yn y lleoedd iawn. Os nad yw eich gweithlu yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn eich cymuned ar hyn o bryd, adolygwch eich proses hysbysebu ar gyfer rolau newydd. A oes lleoedd eraill y gallech fod yn rhannu eich hysbysebion? A oes grwpiau/busnesau/sefydliadau addysg lleol eraill y gallech gysylltu â nhw?

### Gwybodaeth bellach

Cynhwysiant ac Amrywedd yn y gweithle: https://www.cipd.co.uk/knowledge/fundamentals/relations/diversity/factsheet#gref

Ffyrdd o hyrwyddo cynhwysiant ac amrywedd yn y gweithle: https://www.forbes.com/sites/theyec/2021/01/25/eight-important-ways-to-promote-inclusion-and-diversity-in-your-workplace/?sh=1a0531e76da1



# Gweithgareddau

## Cerfluniau Gwydr



**Beth fyddwch eu hangen:**

- 1 x darn hir o wifren denau
- Sawl darn o weddillion papur meinwe llachar – wedi'i dorri'n barod
- 1 x darn o bapur cyswllt clir (plastig cefn-gludiog)

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Torrwch un darn hir o wifren a'i blygu i siâp cylchyn.
2. Gosodwch y cylchyn i lawr ar ddarn mawr o blastig clir, cefn-gludiog; gosodwch y wifren 2 i 3cm o ymyl y plastig.
3. Gwasgarwch ddarnau o weddillion papur meinwe ar ben y plastic cefn-gludiog a gwasgwch yn ysgafn i lawr.
4. Plygwch ymylon y plastig yn ôl dros y wifren, ar ben lle y mae'r papur meinwe.
5. Pan fydd y ddalen blastig wedi ei gorchuddio â phapur meinwe, rhowch y cylch i sefyll, a phlygwch ef i wahanol siapiau fel y bydd yn sefyll ar ei ben ei hun.
6. Gosodwch y cerflun naill ai yn y ffenest i adael i'r golau drwodd neu gosodwch dortsh ar yr ochr arall i'w oleuo!

## Terariwm

**Beth fyddwch eu hangen:**

- Powlen bysgod neu botyn gwydr o unrhyw faint
- Cerrig bychain
- Siarcol garddio
- Pridd plannu
- Planhigion o'ch dewis eich hun (gwelwch y syniadau ar y gwaelod)
- Sisyrnau
- Dŵr
- Cerrig addurniadol a modelau bychain

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Golchwch y cynhwysydd gwydr mewn dŵr poeth a sebon. Rhowch rins iddo a'i sychu'n llwyr.
2. Gwnewch haen 2.5 centimetr o gerrig ar waelod y potyn.
3. Ychwanegwch 1.5 centimetr o siarcol.
4. Defnyddiwch lwy i osod haen 5 i 7.5 centimetr o bridd plannu. (Pentyrrwch y pridd yn uwch ar un ochr fel bo'r planhigion yn weladwy o'r ochr.) Gwnewch dyllau bychain i'r gwreiddiau.
5. Cymerwch y planhigion o'u potiau, cymerwch y pridd sy'n weddill o'r gwreiddiau, a thociwch y dail sydd wedi eu niweidio. Tra bo'r gwreiddiau'n dal yn llaith, gosodwch y planhigion yn y tyllau gan daro pridd dros y gwreiddiau. Gosodwch y planhigion talaf yn y cefn. Ychwanegwch leithder i'r pridd. Peidiwch â'i ddyfrio'n ormodol.
6. Addurnwch â cherrig deniadol, ffigurynnau o anifeiliaid neu gorrach gardd. Gosodwch ef mewn lle nad yw'n uniongyrchol yn yr haul. Ychwanegwch ddŵr wrth i'ch terariwm sychu.



## Symudolyn Hydrefol

**Beth fyddwch eu hangen:**

- Llinyn neu ddarn o wlân
- Sgiwer (metel fyddai orau) / ebill
- Sisyrnau
- Nodwyddau tapestri
- Ffon fechan

**Cynghorion diogelwch ynghylch defnyddiau naturiol:**

- Gwiriwch nad yw'r defnyddiau a gesglir yn wenwynig.
- Goruchwyliwch y plant pan fyddant yn defnyddio'r sgiwer / ebill

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Dechreuwch drwy fforio am drysorau hydrefol megis conau pîn, concyrs, mes, hadau sycamorwydden, rhisgl, egroes ac aeron.
2. Defnyddiwch y sgiwer neu'r ebill i wneud tyllau drwy'r hadau a'r cnau; bydd angen goruchwyliaeth oedolion.
3. Gwnewch gwlwm ar ddiwedd darn o linyn / gwlân sydd mor hir â'u breichiau. Defnyddiwch y nodwydd dapestri i osod y defnyddiau naturiol (trysorau hydrefol) ar y llinyn.
4. Clymwch y llinynnau wrth y ffon fach i greu symudolyn coedwig naturiol hydrefol.



## Bocs Atgofion Clwb Gwyliau



**Beth fyddwch eu hangen:**

- Bocsys o faint priodol e.e. bocsys esgidiau neu rawnfwyd
- Eitemau i addurno'r bocs e.e. secwinau, llewych, paentiau a.y.b.
- Glud

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Gwnewch yn sir bod gan eich bocs o'r maint priodol agoriad i osod y 'ffeindiwyd' a'r 'atgofion' ynddynt.
2. Gofynnwch i'r plant eu haddurno â pha ddefnyddiau crefft bynnag sydd gennych ar gael.
3. Byddan nhw yna'n ychwanegu'u henwau arnynt.
4. Anogwch y plât i gasglu pethau, megis cregyn a cherigos, drwy gydol eu hamser yn y Clwb Gwyliau, neu i ysgrifennu / tynnu llun atgofion arbennig y byddant yn eu casglu ac yna'n eu gosod yn eu bocs.
5. Ar ddiwedd y gwyliau, rhowch rywfaint o amser o'r neilltu i rannu'r atgofion sydd ganddyn nhw, ac efallai i drafod y peth a oedd fwyaf arbennig iddyn nhw.